Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref - MA-L/VG/0528/19

Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Gorffennaf 2019

Annwyl Bethan,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ar 13 Mehefin, ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Rwyf wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor yn ofalus ac wedi cynnwys ymateb i'r argymhellion unigol yn atodiad 1 i'r llythyr hwn, ac eithrio argymhelliad 2, a gaiff ei amlinellu isod.

Yn Argymhelliad 2, mae'r Pwyllgor yn gofyn am eglurhad ynghylch pam mai dim ond am y lleiafswm o 21 diwrnod y caniatawyd i'r Cynulliad graffu ar y Rheoliadau hyn, o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad i'r Cadeirydd y byddai rhagor o amser yn cael ei ganiatáu.

Roedd Rheoliadau 2019 yn bodloni'r holl ofynion o dan y Rheolau Sefydlog ar gyfer cyflwyno'r Offeryn Statudol hwn o dan y weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ysbryd yr hyn roeddwn wedi'i fwriadu, gan fy mod yn croesawu ac yn gwerthfawrogi gwaith craffu'r pwyllgor. Yn anffodus, nid oedd modd caniatáu rhagor o amser i graffu ar Reoliadau 2019 oherwydd y cysylltiadau rhwng cyflwyno'r dyletswyddau ar gyfer y darparwyr gofal sylfaenol annibynnol a safonau'r Gymraeg ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol, a ddaeth i rym ar 30 Mai.

Nodais hefyd pa mor bwysig oedd peidio ag oedi wrth gyflwyno'r dyletswyddau gan eu bod yn elfen bwysig o wella gwasanaethau Cymraeg mewn gofal sylfaenol ac yn rhan o'r jig-so o waith a chymorth sy'n cael ei roi ar waith wrth i becyn cymorth gael ei ddatblygu ac arolwg llinell sylfaen Cymraeg ar gyfer Meddygon Teulu.

Fel yr wyf yn nodi uchod, rwy'n llawn werthfawrogi bod angen caniatáu amser ar gyfer gwaith craffu, ac mewn ymateb i'r ddadl ar ddirymu'r cynnig, nodais fy mod wedi gofyn i'm swyddogion sicrhau, yn y dyfodol, pan fyddwn yn gwneud rheoliadau am y defnydd o'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, hyd yn oed os bydd hynny o dan y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

weithdrefn negyddol, ein bod yn hysbysu ac yn ymgysylltu â'r pwyllgor penodol ar gyfer y pwnc dan sylw, ond hefyd â'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn gynharach yn y broses.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Atodiad 1

Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (13 Mehefin 2019)

Darperir gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Gorffennaf 2019

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r wyth o argymhellion yn yr adroddiad.

Argymhelliad 1 - Teimlai rhai Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru ddiddymu'r Rheoliadau, ond nid oedd eraill o'r un farn, ond cytunodd yr holl Aelodau y dylid diwygio'r Rheoliadau yn dilyn ymgynghoriad llawn gan gynnwys grwpiau cleifion, Comisiynydd y Gymraeg a'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ogystal â chyrff proffesiynol sy'n cynrychioli darparwyr gofal sylfaenol annibynnol.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Fel y mae eich adroddiad yn nodi, ceir ystod eang o safbwyntiau ar y dyletswyddau. Mae gosod dyletswyddau cyraeddadwy ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn fan cychwyn rhesymol a chymesur ar gyfer cyflwyno darpariaeth Gymraeg yn y sector gofal sylfaenol. Ni chafwyd cytundeb ar y cynnig i ddirymu'r Rheoliadau, ac ni fydd Llywodraeth Cymru yn diddymu'r Rheoliadau.

Mae'n bwysig na fydd momentwm i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg a'u datblygu ymhellach mewn gofal sylfaenol yn cael ei golli, ond rydym yn cydnabod bod angen adolygu ac asesu cynnydd ac effaith yn barhaus.

Mae wastad wedi bod yn fwriad gennym i adolygu'r broses o weithredu ac effaith y dyletswyddau yn ystod 2020/2021. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau cleifion, y cyrff proffesiynol sy'n cynrychioli darparwyr gofal sylfaenol annibynnol, byrddau iechyd a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, ystyrir a oes angen diwygio'r Rheoliadau, ac os oes angen, cynhelir ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Argymhelliad 2 - Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i esbonio pam mai dim ond am y lleiafswm o 21 diwrnod y caniatawyd i'r Cynulliad graffu ar y Rheoliadau hyn, o gofio bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad i'r Cadeirydd y byddai rhagor o amser yn cael ei ganiatáu.

Ymateb: Derbyn

Cafodd yr ymateb ei nodi yn fy llythyr eglurhaol atoch.

Argymhelliad 3 - Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth ddrafft yn y dyfodol yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn Gymraeg gan ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol, yn ddwyieithog, i'w harchwilio gan y Pwyllgor hwn cyn ei chyflwyno i'r Cynulliad.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'n ddrwg iawn gennyf na chafodd y Memorandwm Esboniadol Cymraeg ar y diwygiadau i'r Rheoliadau ei osod gerbron y Cynulliad ar yr un adeg â'r copi Saesneg yn yr achos hwn. Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mehefin, mewn ymateb i'r cynnig i ddirymu, ac yn fy llythyr eglurhaol atoch chi yn ymateb i Argymhelliad 2, pan gaiff rheoliadau eu gwneud ynghylch y defnydd o'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, bydd fy swyddogion yn hysbysu ac yn ymgysylltu â'r pwyllgor penodol ar gyfer y pwnc dan sylw, ond hefyd â'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn gynharach yn y broses.

Caiff unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau hyn yn y dyfodol sy'n ymwneud â darpariaeth y Gymraeg gan ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol eu gosod gerbron am 40 o ddiwrnodau cyn dod i rym er mwyn ymgorffori'r cyfnod dirymu. Ynghyd ag unrhyw reoliadau, caiff Memorandwm Esboniadol dwyieithog ei osod gerbron.

Argymhelliad 4 - Er mai dim ond rhai Aelodau’r Pwyllgor oedd yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru warantu’r hawl i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg lle mae'r capasiti presennol yn bodoli, roedd holl Aelodau’r Pwyllgor yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddatblygu'r capasiti hwn mewn meysydd eraill.

Ymateb: Derbyn

Ar hyn o bryd mae 120 o gyrff yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sydd wedi gwella faint o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael a'u hansawdd ar draws nifer o sectorau, gan gynnwys llywodraeth leol, addysg bellach ac addysg uwch, y sector iechyd, heddluoedd ac awdurdodau tân. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda'r cyrff hyn, a gyda chyrff eraill i wella eu capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, ac hefyd i gynyddu'r galw am wasanaethau Cymraeg. Drwy ei strategaeth Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ac mae'n rhoi Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg ar waith, a fydd yn galluogi cyrff o bob sector i ddefnyddio datblygiadau technolegol i gynnig gwasanaethau Cymraeg.

Argymhelliad 5 - Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch gyfathrebu i addysgu darparwyr gofal sylfaenol annibynnol am eu dyletswyddau newydd. Dylai'r ymgyrch hon hyrwyddo'r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i'r dyletswyddau hyn ac egluro i ba raddau y mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau allu sgwrsio yn Gymraeg.

Ymateb: Derbyn

Mae'r dyletswyddau a osodir ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn rhan o'r jig-so o ymyriadau a chymorth sy'n adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan ‘Mwy na

geiriau...' o fewn y sector iechyd a gofal. Mae'r gweithgareddau arfaethedig dros y misoedd nesaf a nodir yng Nghynllun Gweithredu Mwy na Geiriau ar gyfer 2019/20 i gefnogi datblygiadau ym maes gofal sylfaenol yn cynnwys:

Arolwg Sylfaenol y Gymraeg - Practisau Meddygon Teulu

I gyd-fynd â chyflwyno'r dyletswyddau ar gontractwyr gofal sylfaenol annibynnol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Meddygon Teulu (Cymru) i ddatblygu arolwg i gasglu data sylfaenol ar wasanaethau Cymraeg o fewn practisau a chlystyrau Meddygon Teulu. Mae'r arolwg yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, gyda chwestiynau o dan y penawdau canlynol:

- Hyrwyddo a gwybodaeth - hyrwyddo a darparu gwybodaeth yn y Gymraeg
- Sgiliau - y lefel o ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r sgiliau a'r cyfleoedd i staff i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg
- Cynnig Rhagweithiol - recordio'r cynnig rhagweithiol a dewis iaith y claf.

Cynhelir yr arolwg yn ystod yr haf. Bydd y canfyddiadau o'r arolwg hwn yn cyfrannu at ddatblygu'r pecyn cymorth ar gyfer gofal sylfaenol, cynllun peilot Cymraeg Byd Busnes a'r adolygiad yn y dyfodol o weithredu ac effaith y dyletswyddau.

Y Pecyn Cymorth ar gyfer Gofal Sylfaenol

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn bwrw ati â'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth gofal sylfaenol i hyrwyddo'r Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol' a darparu canllawiau a chymorth ymarferol. Yn y cyfamser, mewn ymateb i'r argymhelliad penodol hwn, byddwn yn llunio taflen ffeithiau 'Cwestiynau Cyffredin' i hybu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y dyletswyddau hyn gan egluro beth y disgwylir ei rannu gyda chontractwyr gofal sylfaenol.

Cynllun Peilot Cymraeg Byd Busnes

Bwriad Llywodraeth Cymru yw cynnal cynlluniau peilot Cymraeg Byd Busnes gyda chlystyrau i gefnogi sefydliadau gofal sylfaenol wrth gyflwyno'r dyletswyddau hyn. Bydd hyn yn cynnwys nodi anghenion practisau yn yr ardal glwstwr, a chanfod atebion posibl i'w cynorthwyo i gynnig gwell darpariaeth ddwyieithog. Mae cynllun peilot wedi cael ei nodi yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda - Clwstwr Aman Gwendraeth, ac mae opsiynau'n cael eu trafod gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd. Bydd y gwaith yn helpu i nodi arferion da y gellid eu datblygu ar lefel genedlaethol, a chefnogi'r pecyn cymorth arfaethedig ar gyfer gofal sylfaenol wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Argymhelliad 6 - Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr addysg a hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol yn ymwybodol o natur y dyletswyddau newydd er mwyn chwalu unrhyw gamsyniad am yr angen i weithwyr proffesiynol siarad Cymraeg er mwyn gweithio yng Nghymru

Ymateb: Derbyn

Cafodd y mater hwn ei godi yn eich cyfarfod pwyllgor gan y cyrff cynrychioladol, ac mae hefyd wedi cael ei godi ar wahân gyda fy swyddogion. Mae'n bwysig ein bod yn mynd i'r afael â'r camsyniad am y gofynion o ran gallu wrth siarad Cymraeg. Ni fyddem am i'r dyletswyddau gael eu gweld fel rhwystr i recriwtio yn y dyfodol ar draws y sector gofal sylfaenol. Mae gan Lywodraeth Cymru, byrddau iechyd, darparwyr hyfforddiant a chyrff cynrychioladol y darparwyr gofal sylfaenol annibynnol oll rôl i'w chwarae i sicrhau nad hyn yw'r achos. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i chwalu unrhyw gamsyniad.

Argymhelliad 7 - Dylai Llywodraeth Cymru egluro cyfrifoldebau'r byrddau iechyd lleol ar unwaith o ran cwrdd â chostau darparwyr gofal sylfaenol annibynnol o ganlyniad i gydymffurfio â'r Rheoliadau.

Ymateb: Derbyn

Ni fyddem yn disgwyl, nac yn dymuno, gweld darparwyr gofal sylfaenol annibynnol yn colli incwm o ganlyniad i'r Rheoliadau yn dod i rym yn cyflwyno'r dyletswyddau. Bydd fy swyddogion yn ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol y Byrddau Iechyd i egluro'r safbwynt.

Argymhelliad 8 - Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid i Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn iddo gynnal adolygiad o weithredu’r Rheoliadau ar ôl iddynt fod mewn grym am 12 mis. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chomisiynydd y Gymraeg gyflwyno adroddiad ar yr adolygiad i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodir yn yr ymateb i Argymhelliad 1, byddwn yn cynnal adolygiad ar weithredu ac effaith y dyletswyddau, a byddwn yn trafod y dull gweithredu priodol gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Cynhelir yr arolwg yn ystod haf 2020/21. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor.